

Gwerthuso'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru – Adroddiad Interim ar Ymchwil gyda Manwerthwyr a Dadansoddi Meintiol

Crynodeb Gweithredol

1. Nodau a methodoleg yr ymchwil

- 1.1 Hwn yw'r adroddiad interim o'r ymchwil dulliau cymysg a gwblhawyd gyda manwerthwyr i werthuso profiadau ac effeithiau'r Isafbris am Alcohol (MPA) yng Nghymru ers ei gyflwyno ar 2 Mawrth 2020.
- 1.2 Comisiynwyd yr ymchwil gan Lywodraeth Cymru i gasglu adborth oddi wrth fanwerthwyr ynghylch gweithredu'r Isafbris am Alcohol a'i effeithiau, ac i archwilio'r effaith ar werthiannau a phryniannau alcohol trwy ddadansoddi data eilaidd.

Methodoleg

Dulliau ansoddol

- 1.3 Cynhaliwyd cyfweiliadau ansoddol gyda 30 o fanwerthwyr o bum rhanbarth yng Nghymru oddeutu dwy flynedd wedi'r ymchwil llinell sylfaen. Cyfwelwyd â phymtheg o fanwerthwyr ar adeg yr ymchwil llinell sylfaen ac eto yn yr ail don, pan recriwtiwyd 15 o gyfranogwyr newydd i gymryd rhan yn y broses ddilynol gyntaf hon. Roedd y sampl yn cynnwys manwerthwyr annibynnol a manwerthwyr cadwyn; manwerthwyr micro, bach a chanolig; a chyfuniad o drwyddedwyr mewnfasnach, trwyddedwyr allfasnach, neu drwyddedwyr mewnfasnach ac allfasnach.

Dulliau meintiol

- 1.4 Cynhaliwyd dadansoddiadau Cyfres Amser Fylchog Reoledig (CITS) er mwyn edrych ar effaith polisi Isafbris am Alcohol ar gyfres o werthiannau alcohol a mesurau canlyniadau prynu. Gan ddefnyddio Lloegr fel grŵp rheolydd, ceisiodd y dadansoddiad wahanu effeithiau'r Isafbris Uned o effeithiau'r mesurau lliniaru Covid-19, a weithredwyd ar yr union amser bron â'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru.
- 1.5 Defnyddiwyd data man gwerthu manwerthwyr bach a data pryniannau gan banel mawr o siopwyr ar gyfer y dadansoddiad meintiol. Roedd y data gwerthiannau misol yn mynd o fis Medi 2019 i fis Chwefror 2022. Roedd y data pryniannau pedair-wythnosol yn mynd o fis Mawrth 2015 i fis Chwefror 2022.

Cyd-destun Covid-19 a chostau byw

- 1.6 Dylid nodi yr effeithiwyd ar brofiad a safbwyntiau'r manwerthwyr am weithredu ac effaith yr Isafbris am Alcohol gan gyd-destun ehangach y cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19 a'r cynnydd diweddar mewn costau byw:
- Cafodd y cyfyngiadau Covid-19, a gyflwynwyd yn gyntaf yn y mis y daeth yr Isafbris am Alcohol i rym, effeithiau sylweddol ar fusnesau a chwsmeriaid y manwerthwyr, yn arbennig manwerthwyr mewnfasnach. Cafodd hyn oblygiadau ar barodrwydd rhai manwerthwyr i'w gweithredu ac effaith yr Isafbris am Alcohol ar werthiannau alcohol;
 - Nodwyd bod cynnydd yn y costau byw yn bwrw cysgod dros y newidiadau a achoswyd gan yr Isafbris am Alcohol rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2022. Dywedodd manwerthwyr bod y cynnydd ym mhrisiau alcohol yn llai amlwg o'i herwydd. Roedd y manwerthwyr hefyd yn ystyried y cynnydd mewn costau byw wrth fynegi eu safbwyntiau ar effeithiau'r polisi ar eu cwsmeriaid a'u gwerthiannau.

2. Prif ganfyddiadau

Canfyddiadau ansoddol

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Isafbris am Alcohol

- 2.1 Roedd lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y manwerthwyr am y polisi wedi gwella rhywfaint ers y cyfnod sylfaen, gyda phob un yn dangos dealltwriaeth sylfaenol. Roedd y bylchau gwybodaeth yn cynnwys sut y cyfrifwyd prisiau unigol, sut roedd yr Isafbris Uned yn effeithio ar gynigion a disgowntiau hyrwyddol a sut caiff y polisi ei orfodi. Roedd y ffactorau a gyfrannodd at lefel ymwybyddiaeth y manwerthwyr yn cynnwys a oeddent ar gau yn ystod y pandemig, a oeddent eisoes yn codi mwy na'r isafbris fesul uned ac ai nhw oedd yn bennaf gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch prisiau.
- 2.2 Roedd y manwerthwyr â lefelau uwch o ymwybyddiaeth yn ystod y cyfnod hwn yn tueddu i fod wedi chwilio am o leiaf un ffynhonnell o wybodaeth ynghylch y polisi yn ystod y cyfnod sylfaen. Defnyddiwyd ffynonellau gwybodaeth ar-lein, y cyfryngau, y cyfryngau cymdeithasol; cyfathrebiadau Llywodraethau cenedlaethol a llywodraeth leol; ffynonellau masnach; neu ar lafar. Er bod rhai yn ystyried y ffynonellau hyn yn ddigonol, nid oedd manwerthwyr eraill yn ymwybodol o'r wybodaeth oedd eisoes yn bodoli ynghylch sut y dylid gosod prisiau cynigion a disgowntiau hyrwyddol, nac yn gwybod sut i'w chyrraedd. Roeddent hefyd yn dymuno derbyn nodiadau atgoffa a diweddariadau, a thystiolaeth ynghylch a oedd y polisi wedi cael effeithiau cadarnhaol ai peidio.

Safbwyntiau ar yr Isafbris am Alcohol

- 2.3 Roedd y manwerthwyr oedd yn gweld effeithiolrwydd tebygol y polisi yn beth cadarnhaol yn ystyried 'yfed problemus' yn salwch nid yn ddewis, ac yn credu y byddai'r polisi yn atal salwch ac yn gwella iechyd y cyhoedd. Roedd y safbwyntiau cymysg am effeithiolrwydd y polisi yn adlewyrchu cytundeb â'r polisi yn fras, ond hefyd y pryderon y byddai'n effeithio'n anghymesur ar y rhai tlotaf a mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Roedd y cynnydd diweddar mewn costau byw yn dwysáu'r pryderon hyn. Cafwyd safbwyntiau negyddol am effeithiolrwydd tebygol y polisi ymysg y manwerthwyr a gredai y byddai pobl bob amser yn yfed cymaint ag y dymunent, a bod y polisi'n ofer.
- 2.4 Credai manwerthwyr mewnfasnach bod y polisi'n cydbwysu'r gystadleuaeth rhyngddynt a manwerthwyr allfasnach, yn enwedig yr archfarchnadoedd yr ystyriwyd eu bod yn tanwerthu eu cynhyrchion. Roedd eraill yn gadarnhaol neu'n niwtral am y polisi oherwydd iddynt ganfod – yn groes i'r disgwyliadau cyn gweithredu'r polisi – mai dim ond ar ychydig neu ddim o brisiau'r cynhyrchion a werthent yr oedd yn effeithio. Roedd y siopau annibynnol a weithredai ym mhen

rhatach y farchnad yn pryderu nad oeddent bob amser yn gallu cynnig disgowntiau er mwyn cystadlu â manwerthwyr mewnfasnach, archfarchnadoedd a chadwyni o siopau. Golygai hyn fod rhai ohonynt yn credu y dylent fod yn gallu gwerthu alcohol am ba bynnag bris a ddewisent.

- 2.5 Y manwerthwyr a ddywedodd fod angen iddynt fod yn gyfrifol wrth werthu alcohol oedd yn fwyaf cefnogol o'r polisi. Credent fod goryfed oedd yn gysylltiedig â manwerthwr yn annog cwsmeriaid eraill i beidio â'i ddefnyddio, neu fod ganddynt rôl i'w chwarae o ran iechyd y cyhoedd. Credai eraill na fyddai cefnogaeth barhaus i'r polisi ond yn gweithio ochr yn ochr ag addysg i hyrwyddo yfed yn gyfrifol a chymorth gan y llywodraeth i wasanaethau caethiwed i alcohol. Y manwerthwyr a ddadleuai dros gyfrifoldeb unigol a dewis i gwsmeriaid oedd lleiaf cefnogol i'r Isafbris am Alcohol.

Paratoi ar gyfer a phrofiadau o weithredu'r polisi

- 2.6 Y manwerthwyr oedd wedi gwneud y mwyaf o waith paratoi cyn gweithredu'r polisi oedd y rhai mwyaf parod i fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau angenrheidiol ar ôl ei weithredu. Roedd y camau a gymerwyd ar ôl gweithredu'r polisi yn cynnwys hyfforddi staff am y polisi a chodi ymwybyddiaeth ymysg cwsmeriaid. Y rhesymau a roddwyd gan fanwerthwyr oedd heb baratoi ar gyfer gweithredu'r polisi oedd nad y nhw oedd yn gyfrifol am benderfyniadau ar brisio, roeddent eisoes yn gwerthu alcohol am bris uwch na'r Isafbris Uned, neu newydd ailagor ar ôl Covid-19 oeddent, ac nid y polisi Isafbris am Alcohol oedd uchaf yn eu meddyliau.
- 2.7 Y prif anhawster a wynebwyd gan fanwerthwyr oedd prisio hyrwyddiadau, cynigion a disgowntiau, yn enwedig y manwerthwyr nad oeddent yn ymwybodol o Ganllawiau Llywodraeth Cymru a'r ap Isafbris Uned ar gyfer cyfrifo beth ddylai'r isafbris yn ôl cyfaint yr alcohol fod. I'r rhai a ddefnyddiodd yr ap Isafbris Uned, roedd cyfrifo'r pris alcohol yn helpu i wirio eu cyfrifiadau nhw ac osgoi anawsterau prisio.

Effeithiau canfyddedig

- 2.8 Ni wireddwyd rhagdybiaethau manwerthwyr y byddai'r holl brisiau, neu'r rhan fwyaf ohonynt, yn codi'n sylweddol oherwydd y polisi. Yn hytrach, gwelsant fod y cynnydd mewn prisiau wedi'i gyfyngu i boteli dau neu dri litr o seidr cryf, rhad; gwinoedd rhatach; a rhai gwirodydd a weinir mewn bariau a bwytai. Roedd gweddill y cynhyrchion a werthwyd gan fanwerthwyr eisoes yn yr ystod prisiau a ganiatawyd, yn ôl y sôn, neu roedd ychwanegiad sylweddol i'r pris eisoes, a olygai fod maint yr elw yn gallu llyncu'r codiadau pris.
- 2.9 O ran canlyniadau dymunol yr Isafbris am Alcohol, roedd effeithiau cadarnhaol y newidiadau hyn yn cynnwys y ffaith nad oedd cwsmeriaid yn prynu cymaint o'r alcohol rhatach, cryfder uwch; neu fod y manwerthwyr yn dweud eu bod nhw wedi rhoi'r gorau i stocio'r cynhyrchion hyn yn gyfan gwbl, ac yn gwerthu diodydd â chyfaint llai o alcohol yn eu lle, neu ddiodydd alcoholig ansawdd uchel am brisiau uwch. Yn eu tro ac ym marn y manwerthwyr mewnfasnach, roedd yr effeithiau hyn wedi creu 'cae chwarae mwy gwastad' o ran prisio alcohol rhwng y manwerthwyr mewnfasnach a'r rhai allfasnach.
- 2.10 Roedd yr effeithiau negyddol a gafodd y newidiadau ar fanwerthwyr yn cynnwys: (a) gwastraffu cynhyrchion am nad oedd modd iddynt werthu alcohol rhatach a chryfach gyda disgownt pan oeddent yn agos i'w dyddiadau 'ar ei orau cyn'; (b) anawsterau i fanwerthwyr ar draws y DU wrth ymdrin â rheoliadau a threfniadau prisio gwahanol ar gyfer Cymru, Yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon; a (c) yr hyn a ystyriai rhai manwerthwyr yn gostau ychwanegol oherwydd iddynt hyfforddi staff.
- 2.11 O ran yr effeithiau canfyddedig ar gwsmeriaid, credai rhai manwerthwyr nad oedd eu cwsmeriaid yn ymwybodol o'r newid prisiau, tra bo eraill wedi gweld cwsmeriaid yn 'grwgnach'. Pan oedd manwerthwyr wedi rhoi gwybod i'w cwsmeriaid am y polisi a'i bwrpas, dywedasant fod y rhai a gwynodd yn dueddol o dderbyn y cynnydd mewn prisiau. Nid oedd effeithiau'r Isafbris am Alcohol ar yfwyr problemus yn glir i fanwerthwyr, oedd yn tybio naill ai y byddai'r grŵp hwn yn defnyddio cyffuriau yn lle alcohol rhad, neu'n blaenoriaethu eu gwario ar alcohol cryfach dros gostau eraill megis bwyd.

Canfyddiadau meintiol

Oes modd cysylltu'r polisi Isafbris am Alcohol â newid yng ngwerthiannau manwerthu alcohol yng Nghymru, o gymharu â Lloegr?

- 2.12 Ar sail y data sydd ar gael am sampl o fanwerthwyr llai o faint (ac eithrio archfarchnadoedd), nid oedd gweithredu'r polisi Isafbris am Alcohol yng Nghymru ym mis Mawrth 2020 yn gysylltiedig â newidiadau yn refeniw a thrafodion gwerthiannau cysylltiedig ag alcohol. Mae'r data yn dangos cynnydd mawr mewn gwerthiannau alcohol yng Nghymru ac yn Lloegr ym mis Mawrth 2020. Hynny yw, cafwyd cynnydd yn y gwerthiannau a thrafodion alcohol allfasnach, ond gwelwyd yr un peth yn Lloegr hefyd, ac felly mae'n debyg mai cyfyngiadau Covid-19 a'i achosodd. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod yr Isafbris am Alcohol wedi dylanwadu ar werthiannau manwerthu (yn y manwerthwyr bach) yn fwy na'r newidiadau yn y manwerthu ac yfed alcohol a achoswyd gan fesurau lliniaru Covid-19.

Sut mae gweithredu'r polisi Isafbris am Alcohol yn effeithio ar werthiannau alcohol mewn siopau ar y ffin yng Nghymru?

- 2.13 Yn bwysig, mae'r data sydd ar gael yn awgrymu na fu effaith wahaniaethol ar y manwerthwyr bach mewn siopau ar y ffin â Lloegr yn sgil yr Isafbris am Alcohol o ran eu refeniw cyffredinol a'r trafodion yn ymwneud ag alcohol.

Beth yw effaith yr Isafbris am Alcohol ar brynu gan ddefnyddwyr yng Nghymru?

- 2.14 Mae'n ymddangos bod manwerthwyr wedi rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith gan fod cynnydd cyffredinol yn y pris cyfartalog a dalwyd am litr o ddiodydd alcoholig ym mis Mawrth 2022. Yn fwy penodol, roedd y pris cyfartalog a dalwyd am litr o ddiod alcoholig 68c yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw effeithiau gweladwy ar y ddau ganlyniad o ran ymddygiad defnyddwyr. Yn benodol, nid oedd gweithredu'r polisi Isafbris Uned yn gysylltiedig â newidiadau yng ngwariant cyfartalog aelwydydd (£) na chyfaint cyfartalog aelwydydd (litrau) o ddiodydd alcoholig a brynwyd.

A yw effaith yr Isafbris Uned ar brynu yn amrywio yn ôl y mathau o ddiod yng Nghymru, o gymharu â Lloegr?

- 2.15 Mae dadansoddiadau yn ôl mathau o ddiod yn dangos bod cynnydd sylweddol yn ystadegol yn y pris cyfartalog am litr o alcohol ym mis Mawrth 2020 ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o alcohol. Seidr oedd yr unig fath o alcohol i nodi lleihad yn y cyfaint (litrau) cyfartalog a brynwyd yng Nghymru (o gymharu â Lloegr). Roedd y cynnydd mewn prisiau lager yn mynd law yn llaw â chynnydd yng ngwariant yr aelwyd, sy'n awgrymu bod y defnyddwyr wedi llyncu'r costau hyn.

3. Argymhellion

- 3.1 Yr argymhellion ar gyfer cam nesaf, olaf yr ymchwil yw y dylai'r cyfweiliadau â manwerthwyr ganolbwyntio ar effeithiau unrhyw newidiadau i'r Isafbris Uned, ymgyrchoedd pellach i hyrwyddo'r polisi, gwella ymwybyddiaeth o'r canllawiau presennol, a'r effeithiau parhaus. Gallai hyn gynnwys: effeithiau unrhyw ymgyrchoedd gwybodaeth a chynghor pellach sy'n targedu manwerthwyr; profiadau o gydymffurfiaeth a gorfodi; cipio barn ynghylch sut gallai lefel Isafbris Uned newid, a gwahaniaethu ymhellach rhwng effeithiau Covid-19 a chyd-destun chwyddiant uwch; a'r effeithiau canfyddedig ar gwsmeriaid ac yfwrwr problemus dros amser. Mae'n bosibl y gellid gwella'r dadansoddiad meintiol hefyd trwy ehangu'r data ar fesurau canlyniadau sy'n asesu gwerthiannau a phryniannau alcohol, gwerthiannau alcohol o'r holl fanwerthwyr, a data cyfres dros gyfnodau hirach.

Awduron yr Adroddiad: Martin Mitchell, Alessandra Sciarra, Nevena Ilic, Tilly Ruback, Nilufer Rahim, Simon Moore, Colin Angus, Terry Ng-Knight

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Martin Mitchell, Alessandra Sciarra, Nevena Ilic, Tilly Ruback, Nilufer Rahim, Simon Moore, Colin Angus, Terry Ng-Knight. (2023). *Gwerthuso'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru Is-bennawd: Adroddiad Interim ar Ymchwil gyda Manwerthwyr a Dadansoddi Meintiol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 52/2023

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/isafbris-am-alcohol-effaith-ar-fanwerthwyr-adroddiad-interim-ar-ymchwil-gyda-manwerthwyr-dadansoddi-meintiol> Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Janine Hale

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

OGI © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80535-882-4